# Llafur yng Ngwynedd: Lle hynod gyda gweledigaeth fawr

Yn y dyddiau a fu bu Gwynedd yn deyrnas bwysig, ac erbyn heddiw mae'n ranbarth o harddwch a diwylliant bywiog. Cyfrannodd diwydiant Gwynedd at doeau'r byd yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Yma mae cartref diwylliannol iaith hynaf Prydain, ac mae'r tirwedd yn nodedig dros ben. Mae'r unfed ganrif ar hugain yn gosod heriau difrifol i'n trigolion. Nid gwaith traddodiadol, fel amaethyddiaeth a mwyngloddio, yw'r prif gynheiliaid fel yn y gorffennol. Mae newid hinsawdd yn fygythiad i'n cymunedau arfordirol, ac mae prisiau tai a thanwydd yn ei gwneud yn anodd i lawer o bobl ifainc fedru fforddio tai. Mae gennym heriau lleol mawr, ond yn anffodus, yn y blynyddoedd diwethaf yma, nid oes gweledigaeth amgen wedi bod ar gael yn ein hetholiadau lleol. Yn wir, mewn rhai rhannau o Wynedd, ni fu cyfle i bleidleisio ers dros 25 mlynedd – er enghraifft ni fu etholiad mewn tair ward erioed.

**Mae ar ein cymunedau angen rhaglen ddwys er mwyn adfer democratiaeth lleol ac ymrwymiad trigolion.** 'Rydym angen Cyngor sydd â rhaglen uchelgeisiol ar gyfer darparu tai fforddiadwy. Mae'n rhaid i ni adeiladu economi lleol sydd yn creu prif strydoedd bywiog. 'Rydym angen system drafnidiaeth gyhoeddus sydd yn cysylltu pob cymuned. 'Rydym angen adeiladu ar ein hanes a'n diwylliant, gan barchu ein tirwedd gwych. 'Rydym angen adeiladu cynaladwyedd ym mhopeth a wnawn, boed hynny'n warchod ein cymunedau arfordirol neu reoli twristiaeth.

**Mae gan Gyngor Gwynedd ran fawr ym mywydau pob un o'n trigolion, ac fe gynigir llawer o wasanaethau ganddo.** Mae staff ein cyngor yn gwneud llawer i wella ein bywydau, boed ym myd addysg, neu ailgylchu, ac 'rydym yn werthfawrogol iawn o'r hyn y mae'r rhain yn ei wneud drwy lawer o wasanaethau da. Nid yw'r rhaglen bolisi yma felly yn ceisio edrych i mewn i bob cornel o weithgareddau'r cyngor, ond mae'n cynnig gwelliannau mewn rhai mannau pwysig. Weithiau gall gwelliannau a newid eu gwneud yn gyflym, ond dro arall bydd angen cydweithrediad asiantau eraill fel y llywodraeth, cyfundrefnau trydydd sector, cyflenwyr trafnidiaeth, Cyfoeth Naturiol Cymru, y Parc Cenedlaethol, a chyrff cyhoeddus eraill. Yr hyn a gynigir yw atebion cyraeddadwy.

Un o 44 corff cyhoeddus o dan **Ddeddf 'Well-being of Future Generations (Wales)** yw Cyngor Gwynedd: deddfwriaeth arloesol gan Lywodraeth Cymru sydd yn mynnu bod y Cyngor yn gofalu ei fod, yn ei holl weithgareddau, yn defnyddio'r **egwyddor o ddatblygiad cynaliadwy**, pryd y bydd *"gofynion heddiw yn cael eu gwireddu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i wireddu eu gofynion hwythau."* **Bydd Llafur yng Ngwynedd yn sicrhau bod y Cyngor yn rhoi sylw llawn i'r dyletswydd hwn ym mhopeth a wna i wella lles cymdeithasol, amgylcheddol, diwylliannol ac economaidd ein preswylwyr, heddiw ac i'r dyfodol.**

## 1. Cynllunio ar gyfer Cartrefi Go Iawn

Ar draws Cymru mae cymunedau yn wynebu'r her i gael tai fforddiadwy. Mewn ardal wledig hardd fel Gwynedd, yn aml bychan yw'r cymunedau, ac nid ydynt yn denu adeiladu tai newydd, ond y maent yn denu perchnogaeth ail gartrefi, neu gartrefi gwyliau masnachol. Mae'r Senedd wedi cydnabod y broblem hon, a'r effaith a gaiff yn Nwyfor.'Rydym yn falch o nodi bod cynllunau yn cael eu treialu, er mwyn lleihau'r effaith hwn ar rai o gymunedau Cymru; wedi dweud hyn, sylweddolwn, tra bod rhai trigolion yn methu a bod yn rhan o'r farchnad dai, bod eraill, oherwydd natur eu hincwm, yn ei chael yn amhosibl i gael morgais am unrhyw bris.

Her fawr yw cael mynediad i gartref fforddiadwy ar gyfer pobl leol yng Ngwynedd. Er bod cyfartaledd prisiau tai yng Ngwynedd yn is na'r cyfartaledd drwy Gymru, mae graddfa cyflog yng Ngwynedd yn is hefyd, ac mae gan lawer o drigolion fwy nag un gwaith, ac amodau gwaith ysbeidiol, sydd yn ei gwneud bron yn amhosibl iddynt gael morgais neu sgôr credyd da. Nid oes digon o gartrefi addas, gyda thai hŷn yn anaddas, gydag adeiladwaith gwael, ac ar y safle anghywir. Yn ôl Asesiad Marchnad Leol Gwynedd, ar hyn o bryd mae prinder blynyddol o gartrefi cymdeithasol.

1.1.**Bydd Llafur yng Ngwynedd yn gweithio i gynyddu y nifer o Dai Cymdeithasol llai o ran maint, gydag un a dwy lofft** drwy sicrhau bod datblygiad tai newydd yn digwydd, a bod y datblygwyr yn clustnodi o leiaf 30% ar gyfer tai cymdeithasol ar rent ym mhob tref, a 50% mewn pentrefi heb angen cynhaliaeth cyhoeddus.

**1.2. Bydd Llafur yng Ngwynedd yn parhau i gefnogi'r uchafswm treth ar ail gartrefi, ac yn sicrhau y bydd pob incwm sydd yn deillio o'r dreth yn cael ei ddefnyddio i hwyluso'r ffordd at anheddau** drwy:

1.2.1. gefnogi cynllun morgais gwarantedig ar gyfer pobl sydd ag incwm digonol, ond oherwydd patrwm eu cyflogaeth, sydd yn methu â chael morgais;

1.2.2. gefnogi darparu morgais ar gyfer pobl na fyddai'n gallu cael mynediad i'r farchnad;

1.2.3. gynnig benthyciadau ecwiti ar gyfer adnewyddiad i berchnogion, mewn ardaloedd penodol sydd â gofynion arbennig, sydd yn ymroi i gyfamod ar eu tŷ mai dim ond fel prif breswylfa y caiff ei ddefnyddio.

1.3. **Bydd Llafur yng Ngwynedd yn cydweithio â'r Senedd i dreialu cynllun i ddefnyddio'r system cynllunio i gyfyngu tai domestig sydd eisoes yn bodoli rhag cael eu defnyddio i unrhyw bwrpas heblaw fel prif breswylfa.** Bydd disgrifiad y cyfryw ardal yn dibynnu ar yr angen am dai yn lleol, ac ar bleidlais gan drigolion lleol.

1.4. **Bydd Llafur yng Ngwynedd yn cydweithio gyda'r holl asiantaethau perthnasol i ddelio â phroblem digartrefedd a chysgu ar y stryd,** gan ddefnyddio'r gweithredoedd gorau o ardaloedd eraill yng Nghymru, a bydd yn gosod targed i ddileu cysgu ar y stryd o fewn 3 mlynedd.

1.5. **Bydd Llafur yng Ngwynedd yn cefnogi datblygiad cartrefi o dan berchnogaeth cymuned** drwy fodelau megis defnyddio dull cydweithredol, neu drwy i Ymddiriedolaethau Tiroedd Cymunedol ddatblygu tir ar safleoedd gwledig sydd wedi'u heithrio. Mewn rhai achosion, gellid targedu cyllid a godir drwy dreth ar ail gartrefi ar gyfer cynlluniau fel hyn.

1.6. **Yn wyneb ymosodiadau'r Torïaid ar gymuned y Sipsiwn, Roma a Theithwyr (GRT)** fel rhan o'u Mesur Heddlu a Throsedd, mae'n bwysicach nag erioed fod cynghorau yn cymryd oddifrif eu dyletswyddau i ddarparu safleoedd addas ar gyfer y bobl yma. **Bydd Llafur yng Ngwynedd yn sicrhau y bydd safleoedd o safon uchel ar gael ar gyfer holl bobl GRT yng Ngwynedd.**

## 2. Ein Hamgylchedd – ein Planed

Fel trigolion Gwynedd,'rydym yn rhan o, ac yn gwarchod tirwedd hynafol a gwerthfawr. Gwelir nodweddion naturiol arbennig ym mhob man o'n cwmpas, ac ar ein mynyddoedd a'n harfordiroedd mae gennym safleoedd treftadaeth byd-eang sydd yn dathlu adeiladau hynafol, a'n diwydiant o'r gorffennol. Mae gennym yr aneddleoedd Neolithig ar y bryniau, ond yn fwy diweddar mae gennym gymunedau sydd wedi'u lleoli ar fin y môr, ac sydd o dan fygythiad gan newid hinsawdd a chodiad yn lefel y môr.'Roedd gan y rhai a'n rhagflaenodd yng Ngwynedd reord i ymfalchio ynddi, gyda llawer esiampl o ynni hydro yn goleuo cymuned am y tro cyntaf yng Nghymru.

Mae'n fater o frys arnom yn awr, a rhaid i ni efelychu'r traddodiad yma er mwyn wynebu'r heriau sydd o'n blaenau. Mae trigolion Gwynedd angen cyngor sydd yn mynd i sefyll yn gryf drostynt, sydd am weithredu i fynd i'r afael â newid hinsawdd, ac sydd am wneud popeth a allant i warchod y trigolion rhag y bygythaid hwn i'n ffordd o fyw yn y dyfodol.

Mae cymunedau arfordirol Gwynedd ymysg y rhai mwyaf digysgod yng Nghymru. Mae'r arfordir yn eang iawn, a cheir yma bentrefi a chartrefi diamddiffyn. Rhagwelir hefyd mai Gwynedd hefyd fydd y cyngor cyntaf yn y Deyrnas Unedig i golli cymuned oherwydd codiad yn lefel y môr. Mae'n hollbwysig fod Cyngor Gwynedd yn gwneud y cyfan a all yn gyfreithlon i ostwng effaith newid hinsawdd ac i warchod ei gymunedau rhag y bygythaid hwn. Testun pryder yw bod y Cyngor yn ymddangos yn ddifywyd drwy dderbyn y bydd un o'i bentrefi, sef Y Friog, wedi'i golli i'r môr ymhen ychydig o flynyddoedd.

**2.1. Bydd Llafur yng Ngwynedd yn sefyll yn gadarn â phob cymuned arfordirol yng Ngwynedd,** ac yn sicrhau y gwneir popeth posibl i arbed y cymunedau hynny, gan ddarparu cymorth ymarferol iddynt pe bai newid yn anochel. Byddwn yn sefydlu panel gydag unrhyw gymuned sydd o dan fygythiad, er mwyn sicrhau bod pob opsiwn yn cael ei drafod, er mwyn sicrhau mai gyda chydweithrediad y gymuned y canfyddir datrysiadau i'r broblem.

**2.2. Mae Llafur yng Ngwynedd yn deall bod tlodi tanwydd a lledaeniadau carbon yn mynd law yn llaw â'i gilydd, a bod llawer o'n cartrefi yn ddrud ac aneffeithiol i'w cynnal. Byddwn yn creu tîm ar gyfer cynghori a chefnogi trigolion i wneud eu cartrefi yn llai costus i'w cynhesu, ac i leihau lledaeniadau carbon**. Bydd hyn yn hanfodol mewn cyfnod pan fo ein trigolion yn wynebu codiadau anferth mewn biliau ynni.

**2.3. Bydd Llafur yng Ngwynedd yn cefnogi prynu tir i sefydlu ardaloedd cyflenwi ar gyfer cerbydau trydan, ac yn blaenoriaethu rhaglen ar gyfer trydaneiddio holl gerbydau'r Cyngor.** Byddwn yn cydweithio gyda'r Senedd a chyda phob cwmni bysus yng Ngwynedd, er mwyn anog a chefnogi symudiad cyflymach at fysus trydan, yn arbennig y rhai sydd yn defnyddio ffyrdd sydd yn derbyn cymorthdaliadau cyhoeddus.

**2.4. Bydd Llafur yng Ngwynedd yn gweithredu'n llym yn erbyn gadael sbwriel a thaflu anghyfreithlon,** gan weithio'n agos gyda'n cymunedau a'n gwirfoddolwyr, a hefyd 'Cadw Cymru'n Daclus'. Fe sicrhawn y bydd y Cyngor yn defnyddio i'r eithaf y system ar lein fydd yn galluogi'r cyhoedd i roi gwybodaeth am adael sbwriel mewn lleoedd anaddas, fel y caiff y rhai euog eu dirwyo'n llymach

bob tro. Yn 2020, bu 1,312 digwyddiad yng Ngwynedd, ond dim ond £32 o ddirwyon a roddwyd allan, (gwerth £400), a bu'n rhaid i'r Cyngor dalu £21,153 i glirio'r llanast!

**2.5. Bydd Llafur yng Ngwynedd yn ychwanegu at y mannau ailgylchu hunanwasanaeth drwy'r sir, ac yn ychwanegu at y cynhyrchion y gellir eu hailgylchu yn y canolfannau hynny.**

**2.6. Bydd Llafur yng Ngwynedd yn annog ysgolion, colegau a busnesau i gyflwyno i'w myfyrwyr a'u gweithwyr ddeallusrwydd dyfnach o'r angen am ddyfodol gwyrdd a chynaliadwy, ac yn eu dysgu sut mae cyflawni hyn.**

**2.7. Mae Llafur yng Ngwynedd yn credu bod prosiectau ynni gwyrdd yn hanfodol i ddyfodol ein economi lleol, er mwyn sicrhau dyfodol cynaliadwy i bawb.** Byddwn yn cydweithio â grŵpiau lleol a deiliaid er mwyn datblygu perchnogaeth ynni gwyrdd gan y gymuned.

**2.8. Bydd Llafur yng Ngwynedd yn cefnogi'r dyhead am Goedwig Cenedlaethol yng Nghymru** drwy gynorthwyo cartrefi i blannu coeden, a thrwy wneud plannu coed yn ofynnol yn y dyfodol.

## 3. Economi Gwynedd, Gwaith a Swyddi

Dros gyfnod o gannoedd o flynyddoedd, diffiniwyd ein tirwedd gan amaeth a chloddio mwynol, ac er bod ffermio yn rhan anhepgorol o'n diwylliant a'r economi, mae incwm llawer o'n trigolion yn deillio o weithio yn y sector gyhoeddus, twristiaeth, lletygarwch a'r fasnach adeiladu. Golyga hyn i lawer bod eu hincwm yn llai sicr. Mae cytundebau oriau sero, gwaith rhan amser a gwaith achlysurol yn golygu bod lefelau cyflog yn is na'r cyfartaledd dros Gymru. Yn sicr, nid yw'r Llywodraeth yn San Steffan yn gwneud iawn am yr arian a gollwyd yn sgîl gadael yr Undeb Ewropeaidd. Mae Gwynedd wedi'i hynysu oddi wrth San Steffan, a'n trigolion yn methu deall pam nad yw eu Cyngor i weld yn brwydro'n galed i sicrhau adnoddau a buddsoddiad yn yr ardal. Gŵyr Llafur yng Ngwynedd yn iawn bod yn rhaid i'ch Cyngor weithio'n ddiwyro er mwyn denu buddsoddiadau i bob rhan o'r sir. 'Rydym angen Cyngor sydd â gweledigaeth ar gyfer y dyfodol, sydd yn gwybod sut i wneud cais am arian, ac sydd yn gallu cydweithio gyda chwmnïau o'r sector breifat a fyddai'n gallu bod yn bartneriaid i'n economi, yn hytrach na phlygu i'r banciau sydd wedi gadael ein prif strydoedd yn wag.

Yn rhy aml o lawer, mae dyfodol ein prif strydoedd yn nwylo busnesau preifat sydd â'u pencadlys yn Llundain, neu hyd yn oed y tu allan i'r DU. Caiff hyn effaith andwyol ar lawer o gymunedau. Mae penderfyniad gwerthwr papurau newydd i gau siop yn golygu colled

swyddi, ac yn dinistrio calon cymuned, tra mae siopa ar lein yn golygu bod siopau mawr yn cau. Nid yw gadael ein prif strydoedd i'r farchnad yn ddigon da bellach. Mae economi Gwynedd yn dibynnu i raddau helaeth iawn ar dwristiaeth, a thrwy ymdrechion busnesau bychain, daw llawer o arian i mewn i'r ardal, a defnyddir ein siopau, tafarndai a bwytai gan ymwelwyr. Yn anffodus, achlysurol yn aml yw'r swyddi sydd yn ymwneud â thwristiaeth, a hynny ar gyflog isel. Gwyddom bod esiamplau ar gael o arfer da, ac mae'n rhaid cefnogi'r rhain,er mwyn gwella diogelwch cyflogaeth yng Ngwynedd i'r dyfodol.

Un o'r cyflogwyr mwyaf yn y sir yw Cyngor Gwynedd ei hunan, a gall wneud llawer i osod safon cyflog ac amodau yn yr ardal, yn y ffordd mae'n delio â'i staff ei hun, a chytundebau gyda phartneriaid, contractwyr a chyflenwyr, yn ogystal â phobl a chyfundrefnau y mae'n dyfarnu grantiau iddynt.

3.1. **Bydd Llafur yng Ngwynedd yn gwahodd y cynghorau cymuned yn ein prif drefi i ddatblygu cynlluniau ar gyfer canol tref fydd yn nodi nid yn unig y math o fusnesau a fwriedir, ond hefyd ffurf ac edrychiad canol tref.** Fel rhan o'n strategaeth datblygiad economaidd, byddwn yn apwyntio Amddiffynwyr Y Stryd Fawr, fydd yn cydweithio gyda'r cynghorau tref, cynghorau cymuned a chyfundrefnau busnes lleol i wireddu eu cynlluniau. Byddwn hefyd yn defnyddio'r cynlluniau yma fel sail i strategaeth datblygiad cyfalafol yn eu hardal.

3.2. **Bydd Llafur yng Ngwynedd yn cefnogi argaeledd grantiau, er mwyn hybu a chefnogi busnesau newydd ar y stryd fawr.** Bydd yr Amddiffynwr Stryd Fawr yn cydweithio gyda chynghorau cymuned a chyfundrefnau busnes lleol i gynnal arolwg o siopau gwag, er mwyn gweld pa fusnesau sydd eu hangen, a gwella golwg siopau er mwyn denu cwsmeriaid. Dylid sefydlu cynllun 'Cymrwch Ofal o'ch Stryd Fawr', er mwyn sicrhau ardal siopa deniadol ar gyfer ymwelwyr a thrigolion sydd yn cynnwys parthau di-sbwriel a bagiau a mannau gwaredu baw ci.

3.3. **Bydd Llafur yng Ngwynedd yn dynodi a rhannu arfer da mewn cyflogaeth, yn arbennig yng nghyd-destun twristiaeth.** Anelir yn arbennig at ymledu gwaith sydd yn derbyn cyflog uwch na'r isafswm, ac, ar gyfer y rhai sydd yn gweithio oriau sero, ymledu gwaith a gyflawnir yn swyddogol er mwyn cael derbyn budd-dal salwch a thâl gwyliau. Un enghraifft fyddai ysgogi sefydlu asiantaethau ar gyfer gwaith cadw tŷ, er mwyn cynnig gwasanaethau mwy dibynadwy, ac amodau gwaith mwy diogel.

3.4. **Bydd Llafur yng Ngwynedd yn cymryd sylw manwl o'r ffordd y mae gweithwyr yn cael eu trin mewn cyfundrefnau lle mae cysylltiadau contract gyda'r Cyngor yn bodoli, ynghyd ag mewn cyfundrefnau a gynorthwyir gan grantiau'r Cyngor.** Anelir hyn gyda'r bwriad o leihau, a hyd yn oed ddileu arferion anffafriol, oriau sero, cyflogaeth achlysurol a chyflogau isel.

**3.5. Bydd Llafur yng Ngwynedd yn ymroi i wneud Gwynedd yn Sir Cyflog Go Iawn.** Golyga hyn y bydd Gwynedd yn sicrhau:

3.5.1. talu cyflog go iawn i'w holl staff, ymrwymo i sicrhau na fydd unrhyw aelod Cyflogedig yn derbyn cyflog llai na chyflog byw, ac na fydd cyflogau y rhai sydd ar frig y cyfundrefnau yn anghymesur â graddfeydd eu cyfundrefn a'r gymuned a wasanaethir gan y Cyngor, fel na fydd unrhyw weithiwr i'r Cyngor yn derbyn mwy na phum gwaith cyflog cyfartalog y Cyngor.

3.5.2. hyrwyddo cynllun Cyflog Byw Go Iawn ymysg cyflogwyr lleol. Bydd y cyflogwyr lleol sydd yn ymroi i weithredu'r cynllun hwn yn derbyn gwarant. Bydd Llafur yng Ngwynedd hefyd yn ystyried ymrwymo i Gyflog Byw Go Iawn Gwynedd parthed sicrhau cymhorthdal grantiau.

3.6. Bydd Llafur yng Ngwynedd yn cefnogi ein gwasanaethau tân lleol, gan sicrhau ein bod yn hyrwyddo codiad yn y nifer o ddiffoddwyr tân gwirfoddol drwy ganiatáu i'w staff eu hunain ymgymeryd â swyddi ar draws Gwynedd. Gwneir hyn oherwydd y nifer cynyddol o geisiadau gan y gwasanaethau tân i recriwtio diffoddwyr wrth gefn , gan nad ydynt yn gallu cael digon i wneud hynny ar hyn o bryd. Mae'n holl bwysig cynnal gwasanaethau argyfwng ar gyfer cymunedau cefn gwlad, er mwyn sicrhau na fydd oedi mewn ymateb i alwadau yn amharu ar ddiogelwch a bywydau pobl leol. Dylai digon o ddiffoddwyr a chyfarpar fod ar gael i bob cymuned, yn enwedig yn nhymor twristiaeth, pan mae'r galw ar ei uchaf.

**3.7. Mae Llafur yng Ngwynedd yn cefnogi gwladoli gwasanaethau gofal, a rhoi cyflog** byw **go iawn i ofalwyr.** Yn y cyfamser byddwn yn sicrhau bod Cyngor Gwynedd yn defnyddio yr arian y mae'n ei dderbyn yn y modd mwyaf effeithiol. Croesawn y gwelliannau gan Lywodraeth Cymru i'r system dreth lleol, sydd yn sicrhau system deg.

## 4. Cludiant – Cysylltu Cymunedau â'i Gilydd

Er bod cludiant cyhoeddus yn hanfodol i lawer ar gyfer teithio i'r gwaith, i'r ysgol, neu deithio hamdden, nid yw ein rhwydwaith lleol yn ddigonol. Mewn llawer cymuned, nid oes bws ar ôl 6 yr hwyr, ac nid oes bysus o gwbl ar y Sul. Noddir gwasanaethau mewn rhai ardaloedd yn unig, ac nid yw'r gwasanaeth yn cyfarfod â safonau mwyaf elfennol Ewrop. Methodd y Cyngor cyfredol â gwneud cais am grantiau Teithio Actif a fyddai'n gallu gwneud gwahaniaeth sylweddol drwy ddarparu cysylltiadau diogel a safonol i gerddedwyr, beicwyr a'r rhai sydd ag anabledd.

4.1. **Bydd Llafur yng Ngwynedd yn gosod safon ar gyfer mynediad i gludiant cyhoeddus, gan sicrhau y bydd pob cymuned o dros 1,000 o boblogaeth yn derbyn gwasanaeth bws dyddiol, ac y bydd pob cymuned o dros 2,000 yn derbyn gwasanaeth gyda'r nos ac ar y Sul fydd yn cysylltu a lleoedd fel gorsafoedd rheilffordd a phrif drefi.** Byddwn yn gwneud adolygiad manwl o'r system gymorth ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus ac ysgolion, a byddwn hefyd yn defnyddio safbwynt strategol presennol y Cyngor i berswadio cwmnïau bysus i gynnig gwasanaeth modern sydd yn cefnogi anghenion trigolion fydd ar yr un pryd yn ddeniadol i ymwelwyr.

4.2. **Bydd Llafur yng Ngwynedd yn cefnogi cynlluniau sydd yn gwneud teithio di-fodur yn opsiwn llawer gwell ar gyfer teithio i'r gwaith ac amser hamdden.** Mae Gwynedd yn lle gwych i gerdded a seiclo. Mae gennym hefyd rai llwybrau sydd yn rhoi mynediad i'r rhai sydd ag anabledd symud i ganol ein hardaloedd gwledig hardd. Yn anffodus, yn aml iawn, prin yw'r cyfleusterau hyn. Mae Llafur yn ymrwymo i gefnogi cynlluniau fydd yn creu cysylltiadau di-draffig diogel rhwng ein cymunedau allweddol â'i gilydd, gan gynnwys lonydd seiclo diogel i ysgolion pan fo'n bosibl. Fe wnawn yn fawr o'r grant Teithio Actif, a byddwn yn cydweithio gyda grŵpiau megis Sustrans i ddatblygu ein rhwydweithiau di-draffig.

4.3. **Os, neu pan fydd yn bosibl, bydd Llafur yng Ngwynedd yn ceisio sefydlu gwasaneth bysus cyhoedus, er mwyn osgoi'r risg i'n cymunedau o orfod dibynnu ar wasanaethau gan berchnogion a allai fethu yn ddirybudd, neu sydd yn defnyddio bysus sydd yn beryglus.** Byddwn hefyd yn cydweithio gyda'r Senedd i geisio sefydlu pwyllgor gwaith Cludiant Teithwyr Gwynedd i redeg a rheoli holl gyfleusterau cludiant cyhoeddus yn yr ardal. Mae Llafur yng Ngwynedd yn cefnogi'r syniad o gael Metro Gogledd Cymru, fyddai'n gallu defnyddio gwasanaethau rheilffordd ysgafn ar hyd ffyrdd hŷn i gysylltu prif gymunedau yng ngogledd a gogledd orllewin Cymru.

4.4. **Mae gan Lafur yng Ngwynedd ymrwymiad cryf i'r syniad o leihau traffig ar ffyrdd gogleddol/deheuol ar hyd arfordir Bae Ceredigion, a ffyrdd dwyreiniol/gorllewinol ar hyd gogledd Gwynedd.** Credwn bod hyn yn bwysig dros ben i sicrhau gwelliannau i rwydwaith cludiant cyhoeddus, ac mai dim ond mewn cydweithrediad gyda'n partneriaid o'r sector cyhoeddus y bydd hyn yn bosibl.

## 5. Addysg yng Ngwynedd

Perthyn i Wynedd hanes rhagorol o bobl yn dod o bob rhan o Gymrua thu hwnt i gyfranogi o'r cyfleusterau addysgiadol sydd gennym.Mae Prifysgol Bangor, **a sefydlwyd gan chwarelwyr**, wedi bod yn croesawu myfyrwyr ers ymron i 140 o

flynyddoedd. Bu Coleg Harlech  yn cynnig cyfleoedd unigryw i fyfyrwyr hŷn, ond bellach daeth hwn i ben, drwy ddiffyg gweledigaeth. Mae ein hysgolion yn cynnig addysg sydd nid yn unig yn gartref i'r iaith Gymraeg a'i diwylliant, ond sydd hefyd yn gonglfaen i'r rhan fwyaf o'n cymunedau a theuluoedd.

Yn anffodus, gyda'r toriadau llym sydd wedi'u gwneud i wariant y sector cyhoeddus ar draws y DU ers dros ddeng mlynedd gan y llywodraeth Dorïaidd, dioddefodd addysg yn arw. Mae Llafur yng Ngwynedd wedi ymrwymo i leddfu effeithiau'r toriadau hyn ar blant a theuluoedd. Brawychus yw nodi yn 2021 bod y pel-droediwr Marcus Rashford wedi ymbil ar ran rhieni Ysgol Dyffryn Nantlle ym Mhenygroes, Gwynedd, pan gawsant wybod na fyddai eu plant yn cael eu bwydo "os oeddynt fwy na cheiniog mewn dyled". Erbyn hyn mae Llywodraeth Cymru wedi datgan na ddylai unrhyw blentyn fynd i'r ysgol tra'n llwgu, ac mae trefniadau'n bodoli i ddarparu prydau ysgol maethlon yn rhad ac am ddim i bob disgybl ysgol gynradd yng Nghymru.

Cysylltir addysg hŷn yn agos iawn â swyddi, ac â chreu swyddi. Nid oes cydweddiad rhwng sgiliau trigolion lleol a'r swyddi sydd ar gael, ac nid yw llawer o swyddi gofal oedolion hŷn yn cynig cyflog derbyniol. Mae cyfundrefnau hyfforddiant yn darparu dysgu wrth weithio, fel y caiff pobl leol gyfle i gymhwyso o fewn y sector. Er hyn, cyfyngedig yw'r cyfle i symud i fyny o fewn y sector.

Dros gyfnod pandemig Covid 19, gwelwyd cyfleoedd, ond hefyd heriau, a wynebodd myfyrwyr drwy 'r trefniadau i astudio yn y cartref. Ers Mai, 2020, mae nid yn unig gweithwyr, ond hefyd rhai myfyrwyr a disgyblion wedi 'u gorchymyn i weithio o'u cartrefi. Mae'n anodd dychmygu y gall disgyblion a myfyrwyr ddychwelyd i'w haddysg heb fod ryw lefel o astudio yn eu cartrefi yn digwydd. Mae hyn wedi herio rhieni i ganfod adnoddau, ac i gefnogi eu plant. Mae'n rhaid i ni ddysgu oddi wrth y profiadau hyn.

**5.1. Bydd Llafur yng Ngwynedd yn sicrhau na fydd bygythiad i lesiant rhieni a disgyblion gan benderfyniadau gan staff, yn gorfforaethol neu'n unigolyddol, i ddiddymu cyfleusterau.**

**5.2.** Gadawodd cau Coleg Harlech fwlch mawr yn y cyfleodd sydd ar gael i drigolion Gwynedd yn eu cymunedau cefn gwlad eu hunain. Llwyddodd y Coleg fel canolfan i fyfyrwyr hŷn ddychwelyd i fyd addysg, gan ei fod yn cynnig cyfle i feithrin y sgiliau sydd eu hangen ar gyfer cwblhau cwrs gradd mewn pynciau hollbwysig i'r ardal. Aeth myfyrwyr o Goleg Harlech ymlaen i Addysg Uwch, i astudio rhaglenni yn ymwneud â Nyrsio Cyffredinol, Nyrsio Pedriatig, Nyrsio Iechyd Meddwl, Bydwreigiaeth,Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Gofal Cymdeithaol ac Iechyd Galwedigaethol. Oherwydd y bwrsariaeth Nyrsio, sydd yn dal yn gyfredol gan Lywodraeth Cymru, ond sydd wedi'i ddiddymu yn Lloegr, gallai nyrsus dderbyn profiad ymarferol drwy weithio mewn ysbytai lleol. Yn gyffredinol, byddai nyrsus a

hyfforddwyd fel hynyn cael eu recriwtio gan yr ysbytai ar ôl graddio. Nid yw' r ddarpariaeth arbenigol yma ar gyfer oedolion yn bodoli bellach. Mae oedolion yng Ngwynedd bellach yn wynebu'r risg o fethu ateb y gofynion mewn marchnad swyddi sydd yn newid yn gyflym. **Bydd Llafur yng Ngwynedd yn ymrwymo i gydweithio â phartneriaid mewn addysg bellach, cyfundrefnau preifat a thrydydd sector, trigolion lleol a chyflogwyr er mwyn darparu'n lleol y sgiliau angenrheidiol ar gyfer cyfleoedd cael swyddi o fewn yr ardal.**

5.3. **Cred Llafur yng Ngwynedd y dylai prentisiaethau a gynigir gan Gyngor Gwynedd gael eu darparu gan ddarparwyr Addysg Bellach sydd ag enwau da ym myd gwaith.** Dylid ehangu'r cynllun i gynnwys pawb o oedran gweithio, oherwydd y cyfleoedd cyfyngedig i gael swyddi, yr angen i ailgymhwyso mewn sectorau newydd, cytundebau oriau sero, a'r colli swyddi a fu yn sgîl Covid. Mae'n rhaid i gydraddoldeb ac amrywioldeb fod yn gynhenid yn athroniaeth prentisiaethau, er mwyn ehangu cyfranogiad, darparu swyddi a chreu cymuned gymwys ei sector.

5.4. **Cred Llafur yng Nghymru y dylai disgyblion ysgol a myfyrwyr yng Nghymru gael mynediad i faes llafur ehangach, sydd yn cynnwys gwleidyddiaeth, cynaladwyedd amgylcheddol, ac astudiaeth byd-eang.** Mae arwyddion yng Ngwynedd o ffocws cul yn peri pryder. Ehangu, ac nid cyfyngu ydyw nod addysg. Dylid canolbwyntio ar yr angen holl-bwysig i gael byd cynaliadway, bio-amryfal a hinsawdd-sefydlog, gwell ddeallusrwydd o sgiliau bywyd, mwy o brentisiaethau i gefnogi diwydiant lleol, ac ail-gymhwyso oedolion ar gyfer y fasnach swyddi.

5.5. **Bydd Llafur yng Ngwynedd yn gweithio i ddarparu grŵpiau cefnogaeth ar gyfer rhieni, gyda chyngor ac arweiniad ar addysgu yn y cartref – trosglwyddo, cefnogaeth pwnc, cefnogaeth i Anghenion Dysgu Ychwanegol,** er mwyn sicrhau dilyniant ac ansawdd y dysgu, a gwneud yn siŵr bod plant a addysgir yn y cartref yn cael y cyfleoedd i ymgymryd â chymwysterau, ac yn y blaen. Dylid monitro hyn fel y gall rhieni gael mynediad i adnoddau sydd yn cynnig amrediadau eang o'r cwricwlwm. Dylai'r Cyngor gyflwyno hyfforddiant ar gyfer rhieni, gyda diweddariadau parthed yr arfer cyfredol a'r cwricwlwm, gan gynnwys meysydd pwnc. Yn olaf, dylai Cyngor Gwynedd gyflwyno cynllun mentora drwy ddefnyddio rhieni profiadol i gefnogi rhieni llai profiadol. Dylid hefyd ddarparu cylchlythyrau cyson er mwyn cadw cysylltiad gyda rhieni, yn enwedig o gofio natur unig addysgu yn y cartref.

5.6. **Bydd Llafur yng Ngwynedd yn cefnogi sgiliau Iaith Arwyddo Prydeinig fel rhan o gwricwlwm ysgolion**, ynghyd â chyrsiau wedi'u hanelu at oedolion ar gyfer gwneud defnydd o arwyddo mewn gwaith, gwirfoddoli, ac yn y gymuned. Mae'r IAP erbyn hyn wedi'i dynodi yn iaith swyddogol, ac wedi derbyn statws cyfreithiol yn Lloegr –

bydd Cymru'n dilyn. Mae hyn yn hanfodol, o safbwynt bod yn hollgynhwysol, a hefyd er mwyn gwella hygyrchedd gwasanaethau ar gyfer y gymuned fyddar a'r rhai trwm eu clyw.

5.7. **Bydd Llafur yng Ngwynedd yn cymryd o ddifrif y diffyg cefnogaeth a gaiff rhai myfyrwyr sydd ag anableddau dysgu.** Byddwn yn cydweithio gydag ysgolion er mwyn canfod ffyrdd o wella sgrinio'r rhai hyn, er mwyn sicrhau y bydd pob myfyriwr gydag anghenion dysgu ychwanegol yn derbyn y gefnogaeth sydd angen arnynt i ffynnu mewn addysg.

## 6. Pobl Ifainc yng Ngwynedd

Mae pobl ifainc yn cymryd mwy o gyfrifoldebau ac yn cael mwy o lais parthed yr hyn sydd yn digwydd yn eu hardaloedd. Gan bod y rhai 16 -17 oed erbyn hyn yn cael pleidleisio, mae angen iddynt gael gwybod sut y mae eu democratiaeth lleol a'r gymuned yn gwneud penderfyniadau. Mae'n dod yn fwyfwy pwysig hefyd bod eu Cyngor yn darparu'r gwasanaethau y maent eu hangen. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf yma, pan mae'r sector cyhoeddus wedi gorfod gwneud toriadau, mae'n rhy aml wedi chwilio am y lleoedd hawsaf i wneud y toriadau yma, er enghraifft mewn gwasanaethau anstatudol megis gwasanaethau ieuenctid. Ond mae angen y gwasanaethau hyn, gan eu bod yn rhan bwysig o'r gwasanaethau cymunedol hynny sydd yn galluogi ein cymdeithas i weithio ar ei gorau.

6.1. **Mae Llafur yng Ngwynedd yn cefnogi buddsoddiadau ar gyfer clybiau ieuenctid a chanolfannau chwaraeon a chymdeithasol eraill, er mwyn galluogi pobl ifainc i gymdeithasu mewn amgylchedd diogel yng nghefn gwlad.** Y nod fyddai darparu ystod o weithgareddau hanfodol ar gyfer ymdrin â iechyd meddwl a'r cynnydd mewn hunanladdiadau ymysg yr oedran yma. Mae hyn yn arbennig o berthnasol yng nghyd-destun y trawma a'r straen a ddaeth i'r amlwg yn dilyn dwy flynedd o Covid. Byddai'r nod yma yn cynnwys lleoliadau ar gyfer parciau sglefrfyrddio at ddefnydd y gymuned, er mwyn gwella iechyd meddwl a chorfforol.

6.2. **Mae Llafur yng Ngwynedd yn cydnabod yr angen am fuddsoddiad mewn offer mewn caeau chwarae lleol ar gyfer plant sydd ag anableddau, er mwyn hyrwyddo hollgynhwysedd.** Awgrymir datblygu gardd synhwyraidd mewn cymunedau, gyda chysgod pob-tywydd ar gyfer plant ac oedolion dall a rhannol ddall. Cysylltir yr awgrymiadau hyn ag iechyd corfforol a meddyliol cymunedau. Byddai'r prosiect yn cael ei gynnal gan grŵpiau cymunedau lleol. Gall y buddsoddiad ar gyfer y cyfleusterau hyn ddod yn rhannol drwy gytundebau cynllunio datblygiadau newydd.

## 7. Gwynedd – lle diogel i fynd i'r dŵr

Testun braw yw sylweddoli mai Cyngor Gwynedd yw'r unig Gyngor ar arfordir Bae Ceredigion nad yw'n darparu achubwyr bywydau, er gwaethaf y marwolaethau a ddigwyddodd yn y blynyddoedd diwethaf hyn. Mewn ardal lle mae mynediad i draethau hynod o safonol a chyfleusterau ar gyfer chwaraeon dŵr yn bwysig i drigolion ac ymwelwyr fel ei gilydd, mae hyn yn gywilyddus.

**7.1. Cred Llafur yng Ngwynedd bod diogelu ein trigolion a'n ymwelwyr pan fyddant yn ymweld â'r arfodir yn hanfodol, a byddwn yn cydweithio gyda'r RNLI er mwyn sicrhau bod achubwyr bywyd hyddysg yn bresennol yn ein lleoedd arfordirol.**

## 8. Gwynedd – her cost ynni

Yn 2022, mae ein cymuned yn wynebu codiad syfrdanol mewn costau byw, **a hynny mewn ardal sydd eisoes yn dioddef graddfa uchel o dlodi tanwydd.** Mae prisiau tanwydd yn codi ar y raddfa uchaf erioed, ac er bod llawer o sylw yn cael ei roi i nwy a thrydan, gyda chodiadau o 50% a mwy, prin yw'r sôn sydd wedi bod am olew ar gyfer tai, - mae'r codiad yn y pris yn uwch eto yma. Mae'r her i gynhesu cartref wedi bod yn frwydr i lawer o drigolion Gwynedd, gan nad oes ganddynt wres canolog nwy; nid yw nifer helaeth o dai wedi'u hinsiwleiddio'n ddigonol, ac mae llawer o dai eisoes yn ddrud iawn i'w cynhesu. Cred Llafur yng Ngwynedd bod ymgais Llywodraeth San Steffan i leddfu canlyniadau'r codiadau hyn wedi bod mor aneffeithiol nes bod bron yn ddiwerth.

Mae'n anodd iawn i awdurdod lleol warchod y gymuned rhag effeithiau tlodi tanwydd, ond credwn y gall Cyngor effeithiol helpu i gefnogi rhai o'r bobl mwyaf bregus.

**8.1. Bydd Llafur yng Ngwynedd yn sicrhau bod pob dinesydd cymwys yn derbyn gwybodaeth a chymorth i elwa o gynlluniau Cartrefi Cynnes Llywodraeth Cymru, megis NEST.** Byddwn yn gwneud yn siŵr bod gwybodaeth a chefnogaeth ar gael drwy wasanaethau perthnasol y Cyngor, fel y gall trigolion cymwys wneud cais am y gefnogaeth sydd ar gael i insiwleiddio eu cartrefi'n well, ac er mwyn eu gwneud yn rhatach i'w cynhesu.

**8.2. Bydd Llafur yng Ngwynedd yn cefnogi sefydlu 'Banc Logiau' er mwyn darparu tanwydd coed diogel ar gyfer y rhai sydd fwyaf ei angen**. 'Rydym wedi'n bendithio yng Ngwynedd â choed, a dylai'r Cyngor fod yn flaengar yn sefydlu a rheoli cynllun ar y cyd gydag Adnoddau Naturiol Cymru a gwirfoddolwyr lleol, i gasglu, paratoi, cadw a rhannu logiau i'r rhai sydd fwyaf eu hangen, a'r rhai sydd yn fwyaf bregus yn sgîl prisiau'n codi.

**8.3. Bydd Llafur yng Ngwynedd yn cefnogi sefydlu trefniannau cydweithredol o fewn cymunedau lleol er mwyn sefydlu trefniadau gwresogi torfol fydd yn gostwng costau gwresogi i drigolion.**

## 9. Gwynedd – cartref i'r Iaith Gymraeg a'i Diwylliant

Perthyn i Wynedd, gyda'i hanes o fod yn deyrnas hynafol, etifeddiaeth sydd ynghlwm wrth hanes, diwylliant a chelf egnïol Cymru. Dyma fan lle y gallwn ddathlu a datblygu hanes llenyddol ac ieithyddol Cymru.

**9.1. Bydd Llafur yng Ngwynedd yn ceisio sefydlu Canolfan Genedlaethol Barddoniaeth Gymraeg. Byddai'r adeiladau gweigion Coleg Harlech yn safle delfrydol.**

**9.2. Bydd Llafur yng Ngwynedd yn ceisio sicrhau y bydd yr iaith Gymraeg yn datblygu ac ymestyn yn ehangach yn yr ardal.** Byddwn yn cefnogi'r datblygiad i ddysgu Cymraeg gyda Phrifysgol Bangor, ac agor adeiladau megis ysgolion ar gyfer addysg oedolion. Byddwn yn sicrhau y bydd datblygiadau newydd yn cyfrannu tuag at addysg ieithyddol drwy gyfraniad s106 mewn cytundebau cynllunio. Mae gennym uchelgais yma yng Nghymru i gael mwy na miliwn o siaradwyr Cymraeg: uchelgais a lansiwyd gan Lywodraeth Cymru gyda'r ddogfen Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr Cymraeg.

## 10.Diwygio Democratiaeth a Llais Cymuned Cryf

Yn anffodus, yn ystod etholiadau lleol 2017, cyhoeddodd y cyfryngau torfol mai Cyngor Gwynedd oedd y Cyngor mwyf annemocrataidd ym Mhrydain, oherwydd bod cynghorydd anetholedig mewn 30 ward. Ers ei greu, mae cyfartaledd trydedd ran o wardiau Cyngor Gwynedd wedi dod yn aelodau diwrthwynebiad, ac nid oes etholiad wedi bod mewn sawl ward.

Yn ffodus, bu Senedd Llafur Cymru yn daer dros gynyddu democratiaeth leol; bellach caiff pobl 16 – 17 oed bleidleisio, a gall cynghorau Cymreig ddefnyddio'r system bleidleisio trosglwyddadwy unigol (STV), a fydd yn rhoi mwy o gyfle i bleidleisio dros blaid neu unigolyn y maent yn eu cefnogi. Pe byddai system STV yn bodoli ym mhob etholaeth, byddai hyn yn creu lleihad sylweddol yn y nifer o wardiau lle nad yw pleidleisio'n bosibl.

Gall democratiaeth fod yn fwy fyth o her i Gyngor sydd yn mesur 80 milltir ar ei thraws, a lle mae mynyddoedd, llynnoedd ac afonydd yn gallu bod yn feini tramgwydd, ynghyd â chysylltiadau teithio gwael. Dyma pam y bydd yn rhaid i Gyngor y dyfodol ymrwymo i weithio er lles pob rhan o'r sir – gogledd a de, arfordir a mynyddoedd, er mwyn i gymunedau lleol gael lleisio'u barn.

Bydd y mesurau hyn yn gwneud Gwynedd yn ardal fwy democrataidd, lle bydd gan bawb ddylanwad, ac y bydd pawb yn gallu pleidleisio.

10.1. **Bydd Llafur yng Ngwynedd yn ceisio cael ymgynghoriad cyhoeddus ar system bleidleisio fydd yn decach,** ac os caiff gefnogaeth y cyhoedd, bydd yn hyrwyddo defnyddio STV ar gyfer yr etholiad cyntaf ar ôl 2022.

**10.2**. **Bydd Llafur yng Ngwynedd yn diffinio Ardaloedd Cymuned Cyffredinol newydd drwy'r sir.** Bydd pob ardal yn cynnwys grŵp o drefi a phentrefi tebyg, a gwahoddir y Cynghorau Cymuned, ynghyd â chyfarfodydd cyhoeddus, i nodi'r blaenoriaethau tymor canolig a hir dymor ar gyfer eu hardal gymunedol. Gallai'r rhain fod yn dai, defnydd cynaliadwy o dir, yr economi leol, a buddsoddiad. Bydd cefnogaeth swyddog ar gael,ac fe osodir cyllideb ar gyfer hyn i gyd. Bydd gwybodaeth arbenigol a chefnogaeth ar gael ar gyfer ymgeisio am grantiau cenedlaethol.

10.3. **Bydd Llafur yng Ngwynedd yn cydweithio gyda'r ysgolion a'r colegau er mwyn sicrhau bod ein trigolion iau, a'n etholwyr mwyaf diweddar yn derbyn gwybodaeth am y system ddemocrataidd, a bod ganddynt hawl i drefnu hystings, a thrafodaeth gyda'r rhai sydd yn sefyll etholiad.** Hefyd, gallai myfyrwyr ddefnyddio cyfleusterau ar lein er mwyn gweld sut mae'r Cyngor Sir a'r Cyngor Cymuned yn gweithio. Bydd y cynigiad hwn hefyd yn cynnwys addysg undebau llafur, hawliau gweithwyr, a hawliau dynol fel rhan o ledaenu democratiaeth mewn ysgolion.

10.4. **Bydd Llafur yng Ngwynedd yn cefnogi cyflwyno Amddiffynnydd Democratiaeth ac Amrywioldeb.** Byddai'r person yma yn gynghorydd etholedig gyda'r dasg o gynyddu cyfranogiad etholwyr, a sicrhau ein bod y cynyddu cynrychiolaeth a chyfranogi ym mhob rhan o'n cymuned.